

Memorandwm Esboniadol ar Reoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
30 Mehefin 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022 ('y Rheoliadau') yn sicrhau nad yw aelwydydd lletyol sy'n cynnig llety i bobl o Wcráin o dan y 'Cynllun Cartrefi i Wcráin' yn mynd i unrhyw gostau treth gyngor ychwanegol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 O dan adran 4 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') mae'r dreth gyngor yn daladwy mewn perthynas ag anheddau nad ydynt yn esempt. Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (OS 1992/558, 'y Gorchymyn Anheddau Esempt') yn rhagnodi dosbarthiadau o anheddau sy'n esempt rhag y dreth gyngor.
- 3.2 Mae adran 11 o Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso disgownt i swm y dreth gyngor sy'n daladwy sy'n hafal i'r ganran briodol pan nad oes ond un preswlydd mewn annedd neu pan fo'r holl breswylwyr (neu bob un ohonynt ond un) i'w diystyru. Os nad oes gan yr annedd unrhyw breswlydd neu os oes gan yr annedd un neu ragor o drigolion a bod pob un ohonynt i'w diystyru at ddibenion disgownt, mae swm y dreth gyngor sy'n daladwy yn ddarostyngedig i ostyngiad o ddwywaith y ganran briodol. Nodir y ganran briodol yn adran 11(3) o Ddeddf 1992 ac mae'n 25%.
- 3.3 Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer personau sydd i'w diystyru at ddibenion cyfrifo'r hawl i gael gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae paragraff 11 o Atodlen 1 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi rhagor o bersonau y caniateir eu diystyru. Mae rheoliadau 4 a 5 o Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) 1992 (OS 1992/552, 'y Rheoliadau Diystyru Disgownt') yn rhagnodi dosbarthiadau ychwanegol o bersonau sydd i'w diystyru at ddibenion cyfrifo'r hawl i gael gostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru.
- 3.4 Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliadau Diystyru Disgownt i ragnodi personau a noddir o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin fel dosbarth o bersonau sydd i'w diystyru.
- 3.5 Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Gorchymyn Anheddau Esempt i sicrhau nad yw person sy'n cael ei letya mewn annedd esempt o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin yn effeithio ar statws esempt yr annedd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw biliau treth gyngor aelwydydd sy'n lletya pobl o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin yn cael eu heffeithio gan eu cynnig i roi cymorth i bobl sy'n ceisio diogelwch rhag y rhyfel.
- 4.2 Seilir biliau'r dreth gyngor ar ragdybiaeth bod yr annedd yn cael ei meddiannu gan ddau oedolyn. Gall y swm a godir gael ei effeithio gan gymhwyso esemptiadau, disgowntiau a phremiymau sy'n ymwneud â chyflwr a meddiannaeth yr annedd. Mae diystyriadau – sy'n eithrio person â nodweddion penodedig rhag cael ei ystyried pan gyfrifir disgowntiau neu pan gymhwysir eithriadau – hefyd ar gael.
- 4.3 Mae enghreifftiau o anheddau esempt yn cynnwys cartrefi a feddiennir gan fyfyrwyr yn unig, ac eiddo gwag a arferai gael ei feddiannu gan berson sydd bellach yn byw mewn cartref gofal, ysbyty neu hostel. Y disgownt a ddarperir amlaf yw'r 'disgownt person sengl' o 25 y cant. Mae'r diystyriadau'n cael eu rhoi ar waith yn achos amrywiaeth o bobl, er enghraifft myfyrwyr sy'n rhannu cartref gyda phobl nad ydynt yn fyfyrwyr a phobl â nam meddyliol difrifol.
- 4.4 Gall unigolyn neu deulu a noddur sy'n cyrraedd drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin effeithio ar fil yr aelwyd sy'n eu noddi. Er enghraifft, gallai'r disgownt person sengl neu esemptiad gael ei golli.
- 4.5 Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Diystyru Disgownt fel bod person sydd wedi sicrhau fisa o dan y cynllun noddi Cartrefi i Wcráin yn cael ei ddiystyru at ddibenion cyfrifo disgownt y dreth gyngor. Bydd hyn yn diogelu disgownt person sengl y noddwr, lle bo'n berthnasol, a'r gostyngiad o 50% a dderbynnir gan aelwyd noddi lle mae'r holl feddianwyr eisoes wedi'u diystyru.
- 4.6 Maent hefyd yn diwygio'r Gorchymyn Anheddau Esempt fel na chollir esemptiad pan fo aelwyd yn lletya person sydd wedi sicrhau fisa o dan gynllun noddi Cartrefi i Wcráin.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oedd amser ar gael ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi cael sylwadau oddi wrth yr awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y posibilrwydd y byddai aelwydydd noddi yn colli disgowntiau ac esemptiadau o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun Cartrefi i Wcráin ac yn gofyn inni gymryd camau i atal hyn. Ar 13 Ebrill 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at yr awdurdodau lleol yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i wneud y Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn gyda'r holl gostau a manteision wedi'u meintioli yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn eu cyhoeddi.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

O dan yr opsiwn hwn, byddai aelwydydd sy'n lletya pobl o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin mewn perygl o golli esemptiadau a disgowntiau presennol ar eu bil treth gyngor.

Opsiwn 2: Deddfu i sicrhau bod esemptiadau a disgowntiau presennol yn cael eu cadw

Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau nad oes unrhyw newid i fil treth gyngor aelwydydd sy'n lletya pobl o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin.

Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

6.2 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae risg, er hynny, y bydd yn ofynnol i aelwydydd sy'n dewis lletya pobl o Wcráin dalu mwy yn y dreth gyngor nag a fyddai wedi digwydd fel arall.

Opsiwn 2: Deddfu i sicrhau bod esemptiadau a disgowntiau presennol yn cael eu cadw

6.3 O dan yr opsiwn hwn, byddai swm refeniw'r dreth gyngor a gesglir gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn is nag o dan y senario llinell sylfaen. Er hynny, ni ddisgwylir i refeniw'r dreth gyngor fod yn wahanol o'i gymharu â senario lle nad oedd unrhyw bobl yn cael eu lletya o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin.

6.4 Nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n lletya pobl o Wcráin fel rhan o'r cynllun yw tua 1,630 ar 17 Mehefin 2022, yn seiliedig ar nifer y noddwyr unigryw a leolir yng Nghymru. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am nifer yr aelwydydd noddi a fyddai'n gymwys i gael esemptiad neu ddisgownt ar eu bil treth gyngor. Mae bron 40% o'r holl aelwydydd ledled Cymru yn gymwys ar hyn o bryd. Disgwylir i'r effaith ar refeniw'r dreth gyngor mewn unrhyw awdurdod lleol penodol fod yn niwtral.

6.5 Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau nad oes unrhyw gosbau ariannol na datgymhellion yn y ffordd y gweithredir y dreth gyngor a allai atal aelwydydd rhag lletya pobl sy'n dianc o'r rhyfel yn Wcráin.

6.6 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefir.

Asesu'r Gystadleuaeth

6.7 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau yng Nghymru.